

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Rhodri Jones

Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

3/12/2019

Presennol: Dewi Jones, (yn y gadair), Huw Antur, Beryl Hughes Griffiths, Alwyn E Jones, Heledd Jones, Karl Jones, Huw P Roberts, Alan Jones Evans, (Cyngorydd Gwynedd), Lis Puw (Clerc)

Cyhoedd: neb yn bresennol.

2061 Croesawyd pawb gan yr is-gadeirydd a derbyniwyd ymddiheuriadau Rhodri Jones (Cadeirydd), Arwel Lloyd Jones, Alwyn Roberts a Bethan Edwards (Swyddog Ariannol).

2062 Buddiant: Nid oedd datganiadau o fuddiant.

2063 Cofnodion: Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 5/11/18.

2064 Materion o'r Cofnodion:

2052 i : Cais i ymestyn y llinellau dwbl at Stryd y Prys - mae NMWTRA wedi anfon y cais i sylw Llywodraeth Cymru.

2052 ii : Dŵr yn sefyll ar Lwybr Tegid – y broblem heb ei datrys hyd yn hyn.

2052 v : Nid ydyw'r cerbydau dan sylw yn rhwystr ar y ffordd ar hyn o bryd, felly ni chysylltwyd â'r Swyddog Gorfodaeth.

2065 Cyngor Gwynedd: Derbyniwyd Adroddiad y Cyngorydd Alan Jones Evans a soniodd fod gwaith wedi ei wneud gan Gyngor Gwynedd ar ffordd Bwlch y Groes. Oherwydd nifer y cerbydau'n parcio'n gynnar yn y bore ac ar benwythnos, mae loriau sbwriel newydd y Cyngor yn cael trafferth i gyrraedd rhai o gartrefi'r Lôn. Cafwyd datrysiad dros dro tan ddaw'r drefn newydd o gasglu ysbwriel i rym.

2066 Is-bwyllgor Cyllid : Derbyniwyd Adroddiad cyfarfod 25/11/19 ar ôl trafodaeth o dan arweiniad yr Is-gadeirydd.

- i. Cytunwyd ar y Gyllideb ar gyfer y flwyddyn 2020-21.
- ii. Cytunwyd ar lefel y Praesept 2020-2021. Bu lefel y Praesept yn gyson ers rai blynyddoedd ond ychydig bach iawn o arian sydd wrth gefn ac felly mae rhaid codi'r lefel dros gyfnod. Bydd hyn y golygu fod tŷ Band D £3.20c yn uwch yn 2020. Cedwir Cyfrifon y Fynwent ar wahân i gyfrifon y Cyngor Cymuned.

2067 Materion Eiddo'r Cyngor:

- i. Derbyniwyd Adroddiad Karl Jones a ddywedodd fod cyflwr yr asedau'n foddhaol.
- ii. Ystyriwyd camau nesaf uwchraddio'r toiledau gan y derbyniwyd prisiau am y gwaith a chytunodd Huw Antur i helpu Lindsey Ellis-Edwards a Karl Jones i chwilio am grantiau..

2068 Is Bwyllgor Paneli Gwybodaeth: Derbyniwyd adroddiad Beryl Hughes Griffiths a ddywedodd fod y paneli yn eu lle a'r hawliad o arian grant Treftadaeth wedi ei gyflwyno i Barc Cenedlaethol Eryri. Diolchwyd i deulu'r Eagles, i Urdd Gobaith Cymru ac i Reilffordd

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Rhodri Jones

Llyn Tegid am eu cyfraniadau hael tuag at y prosiect hwn. Mae Beryl Hughes Griffiths yn y broses o greu gwefan i gyd-fynd â'r paneli; bydd hwn yn galluogi creu linc at wefannau eraill a busnesau lleol. Diolchwyd i Beryl Hughes Griffiths a'r is-bwyllgor am eu gwaith yn creu'r Paneli Gwybodaeth.

2069 Y Fynwent: Adroddodd y Clerc ei bod yn ceisio sicrhad cyfreithiol ar y gwaith a fwriedir ei wneud yn y Fynwent Newydd.

2070 Materion ariannol: Cytunwyd i dalu £12.50 i gwmni Sign Creation am yr arwydd wrth y goeden Nadolig.

2071 Is-bwyllgor Canmlwyddiant: Derbyniwyd adroddiad Beryl Hughes Griffiths ar y cynlluniau sydd ar y gweill i nodi canmlwyddiant ar ddechrau mis Mai marwolaeth Syr O M Edwards. Mae'r Teulu hefyd yn rhan o'r achlysur, ac fe fyddant yn cyd-weithio'n agos gyda'r ysgol.

2072 Pwyllgor Ymgynghorol Llyn Tegid: Derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr, Huw Antur a Rhodri Prys Jones. Bu trafodaeth ar lefel y llyn a gwelwyd fod anghenion y gwahanol ddefnyddwyr yn amrywio'n fawr.

2073 Materion lleol:

- i. Cytunodd y Clerc i ohebu gyda Liz Haynes ar ddiogelwch Llwybr y Cei oherwydd gwreiddiau a mwsogl.
- ii. Addawodd Alan Jones Evans i dynnu sylw swyddogion Cyngor Gwynedd at yr angen i lanhau'r cwteri ar ffyrdd Penantlliw. Mae hefyd angen mesurau i sicrhau diogelwch teithwyr ger Deildref Uchaf.

2074 Partneriaeth Penllyn: Derbyniwyd adroddiad y Cynrychiolwyr, Huw Antur ac Alwyn E Jones a soniodd am lwyddiant y noson a gynhaliwyd y mis diwethaf ar gyfer holl Gynghorwyr Penllyn. Soniwyd am drefniadau'r Noson Siopa Hwyr a disgwylir ymateb i'r cais am grant oddi wrth Arfor.

2074 Gohebiaeth:

1. **Parc Cenedlaethol Eryri:** Cymeradwywyd cais **NP5/71/269K** sef Bwch yn Uchaf - Estyniad cefn arfaethedig i'r annedd a'r anecs (Ail-gyflwyniad). Mynegwyd yr angen i Swyddogion anfon mwy o fanylion wrth ail-gyflwyno cais er mwyn cynnig cymorth i aelodau'r Cyngor Cymuned I ddod i benderfyniad; bydd y Clerc yn cyflwyno'r neges hon.
2. **Llywodraeth:** Nodwyd derbyn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru: Cymru Fwy Cyfartal - Cychwyn y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.
3. **Gwynedd:** Binau halen - dywedodd y Clerc ei bod wedi gofyn i Gyngor Gwynedd sicrhau bod cyflenwad o halen yn y binau.
4. **Arall:** Cytunwyd i anfon diolch i Arfon Hughes a dymuniadau gorau ar ei ymddeoliad o'r swydd Hwylusydd tai gwledig.

Cadarnhawyd dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: 7/1/20 am 8.00pm yn y Neuadd Bentref